## Y Groglith

**Darlleniad 1: Eseia 52:13–53:12**

**Darlleniad 2: Ioan 19:17–27**

‘Daethom o sŵn y byd
I’th demel dawel di,
I brofi yno ryfedd rin
Y gwin a’n cynnal ni.

O fewn dy dŷ, ein Duw,
Y mae tangnefedd drud
A’n nertha ni i droi yn ôl
I’r llym herfeiddiol fyd.’

O! Dad, y dydd arbennig hwn, diwrnod yr awr dywyllaf cyn y wawr, cydia ynom â’th Ysbryd di dy hun drwy ein harwain o gysgodion tywyll i oleuni ein gobeithion ynot ti. Rwyt ti’n Dduw sy’n gwneud yr annisgwyl yn y mannau annisgwyl; sy’n dy ddatguddio dy hun yn annisgwyl mewn llawer dull a modd. Mewn perth yn llosgi ac mewn cwmwl; mewn tywyllwch ac mewn tawelwch; yn y corwynt ac mewn goleuni; mewn breuddwydion ac mewn gweithredoedd; yn rhaniad y môr ac ar doriad y bara. Daethost i’n byd yn faban bach diniwed i fam ddibriod, yn dlawd heb feddu na choron na chadfridog - Duw’r annisgwyl sy’n ddigon mawr i adael i bechadur o ddyn ei ddedfrydu fel troseddwr i’w ladd, fel oen i’r lladdfa. Diolch i ti am y weithred aberthol hon yn Iesu Grist; am i ti ein caru gymaint nes rhoi ohonot dy unig Fab er mwyn i bob un sy’n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw, ond cael bywyd tragwyddol.

Fel y bendithiaist Mair yn y dyddiau cynnar a rhyfedd hynny, wrth ei galw yn yr Ysbryd i fod yn llestr i gynnal dy waredigaeth i ni, bendithia ninnau, lestri pridd yn y cyfnod rhyfedd hyn yr ydym yn byw ynddo. Defnyddia ni, er mor anfoddog ac annheilwng, i gynnal a lledaenu’r newyddion da am Iesu. Gwna ni’n llestri ac arnynt ôl dwylo anghenus y byd, a chadw ni rhag ymlonyddu ar silffoedd moethus ein byd lle y gall y llwch a’r gwe bylu’r weledigaeth a ddaeth i’n rhan. Defnyddia ni yn dy waith ymhlith dynion, i gofio am yr anghenus a’r digartref, y rhai sy’n garcharorion cydwybod, neu sydd dan ddedfryd o ganlyniad i ddallineb dynion anghyfiawn.

Ac wrth i ni syllu i gyfeiriad y Groes, a’r milwyr yno ar ddyletswydd, pâr i ni gofio mai trwy weini a gwasanaethu’n gilydd, heb ddisgwyl dim yn ôl, y down yn wir aelodau o’th deyrnas di – yn frenhinoedd tlawd yn nheyrnas gyfoethog dy gariad di.

Yng nghysgod y Groes cyflwynwn i’th ddwylo di’r dydd hwn bawb sy’n ei chael hi’n anodd ar daith bywyd; y rhai sy’n dioddef artaith a phoen corff a meddwl; yn ifanc neu’n hen, mewn ysbyty neu gartref. Caniatâ i ni hefyd o’r cysgodion hyn, O! Dad, lawenhau â’r rhai sydd bob amser yn barod i godi croes Iesu trwy roi eu hysgwydd i gario beichiau eraill.

Derbyn ein gweddïau crwydredig, O! Dad; a maddau i ni ein holl bechodau, yn arbennig am i ni wrthod dy Fab, ac am i ni fod mor amharod i dderbyn ei eiriau. Trugarha wrthym a chaniatâ i’r llen sy’n mynnu dod rhyngom gael ei rhwygo ymaith gan gariad a geiriau Iesu oddi ar y Groes: ‘O! Dad, maddau iddynt oherwydd ni wyddant beth y maent yn ei wneud’.

Clyw ein gweddi, a derbyn hi, am ein bod yn ei chyflwyno i ti yn enw’r un a roddodd y cyfan trosom, yr un hwnnw a’n dysgodd hyd yn oed ar yr awr dywyllaf, nid yn unig i garu ein cymdogion, ond i garu ein gelynion yn ogystal – Iesu Grist. Amen.

***Dafydd Hughes***